# Newidiadau Arfaethedig i CBAC UG a Safon Uwch Busnes

## Cyflwyniad

Mae CBAC yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i UG a Safon Uwch Busnes yn dilyn adolygiad wedi'i dargedu. Nod yr adolygiad yw moderneiddio cynnwys, gwella hydrinedd, a sicrhau dilyniant llwyddiannus o TGAU, tra'n osgoi diwygio cyffredinol.

## Pam mae'r adolygiad hwn yn digwydd?

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru feini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau TGAU a Lefel 2 newydd. Fel rhan o'r broses hon, gofynnwyd i CBAC adolygu cymwysterau UG a Safon Uwch cyfredol i sicrhau eu bod yn alinio â'r cymwysterau TGAU diwygiedig ac yn parhau i fod yn berthnasol. Nodwyd busnes fel un o'r pynciau sydd angen y lefel uchaf o adolygiad.

## Dull cyffredinol

Mae hwn yn adolygiad wedi'i dargedu yn hytrach na diwygiad llawn. Nid yw strwythur y fanyleb wedi newid. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys yn cael ei gadw, gydag addasiadau'n canolbwyntio ar berthnasedd, dyfnder, a hydrinedd.

## Beth sydd wedi aros yr un fath?

Bydd agweddau allweddol y cymhwyster yn aros yr un fath i sicrhau dilyniant i ganolfannau a dysgwyr:
- Strwythur y cymhwyster
- Is-deitlau unedau
- Mwyafrif y cynnwys presennol

## Beth sy'n cael ei gynnig?

Bydd cynnwys nad yw'n hanfodol, yn arunig neu gynnwys ar ôl yr oes yn cael ei ddileu. Bydd cynnwys yn cael ei ail-leoli lle bo hynny'n briodol, ac ychwanegwyd deunydd newydd i adlewyrchu datblygiadau mewn technoleg, moeseg, cynaliadwyedd, amrywiaeth a chymdeithas.

Cynigir newidiadau ar gyfer Unedau 1 a 2 i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2027, ac Unedau 3 a 4 i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2028.

## Crynodeb o'r newidiadau yn ôl uned – (mae rhannau mewn print trwm yn adrannau o'r cymhwyster cyfredol)

Uned 1: Symleiddio cynnwys i leihau gorgyffwrdd a chryfhau'r ffocws ar randdeiliaid.

| Adrannau wedi'u Dileu | Adrannau wedi'u Hychwanegu/Diweddaru |
| --- | --- |
| • **Cynlluniau busnes**<br>• **Samplu**<br>• osgoi tuedd mewn ymchwil marchnata<br>• rolau'r sectorau cyhoeddus a phreifat wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau<br>• costau uniongyrchol, anuniongyrchol/gorbenion | • sut y gall gwrthdaro ddigwydd rhwng gwahanol randdeiliaid |

Uned 2: Lleihau ehangder gormodol, diweddaru arferion rheoli a gweithle.

| Adrannau wedi'u Dileu | |
|---|---|
| • pwrpas marchnata a'i bwysigrwydd i fathau gwahanol o fusnesau mewn sefyllfaoedd gwahanol<br>• beth yw ystyr cyfeiriadu at y farchnad, cyfeiriadu at y cynnyrch a marchnata sy'n cael ei arwain gan asedau<br>• y berthynas rhwng y gylchred oes cynnyrch a llif arian<br>• strategaeth cyfraniadau<br>• rôl yr adran gyllid<br>• buddion a chyfyngiadau rhagolygon llif arian<br>• swyddogaethau'r adran adnoddau dynol<br>• beth yw ystyr y broses recriwtio<br>• beth yw ystyr dadansoddiad swydd, disgrifiad swydd a manyleb person<br>• **Arfarnu**<br>• strwythurau matrics<br>• manteision ac anfanteision newidiadau mewn strwythurau trefniadaeth a dihaenu<br>• y dewis rhwng grymuso a rheoli'r gweithlu<br>• E. Mayo (perthnasoedd dynol), V. Vroom, L. Porter ac E. Lawler (damcaniaethau disgwyliad)<br>• pa mor berthnasol yw damcaniaethau cymhelliant a'u pwysigrwydd i fusnesau<br>• dulliau cymhelliant ymgynghori a dylunio swyddi | • ystyr rheoli<br>• swyddogaethau a rolau rheoli<br>• manteision ac anfanteision rheoli yn ôl amcanion<br>• pwysigrwydd rheoli i fusnes a'i randdeiliaid<br>• y damcaniaethau arweinyddiaeth gan gynnwys F. Fiedler (1976) and P. Wright and D. Taylor (1984)<br>• dulliau datrys anghydfod gan gynnwys trafod, ymgynghori a rôl ACAS<br>• **Rheoli Gweithrediadau**<br>• pwysigrwydd ychwanegu gwerth i fusnes a'i Randdeiliaid<br>• **Cynhyrchu**<br>• cynhyrchu celloedd a rheolaeth seiliedig ar amser<br>• y gwahaniaeth rhwng rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd<br>• cadwyni ansawdd, grymuso, monitro, gwaith tîm, cylchoedd ansawdd a meincnodi<br>• dulliau rheoli stoc gan gynnwys dulliau traddodiadol o reoli stoc, dulliau mewn union bryd a dulliau cyfrifiadurol o reoli stoc<br>• dehongli diagramau rheoli stoc ac esbonio'r prif gydrannau gan gynnwys lefel ail-archebu, amser arweiniol, stoc clustogi a lefel isaf stoc<br>• y broses o ddylunio a datblygu cynnyrch |

| Adrannau wedi'u Hychwanegu/Diweddaru | |
|---|---|
| • gweithio hybrid<br>• Theori continwwm Tannenbaum a Schmidt<br>• beth yw ystyr cyfranogiad gweithwyr<br>• sut i wella cysylltiadau cyflogwr/gweithiwr<br>• canolbwyntio ar gwsmeriaid, cynnwys gweithwyr, gwelliant parhaus | • rôl camau caffael, logisteg a rheoli stoc y gadwyn gyflenwi<br>• pwysigrwydd cael cadwyn gyflenwi effeithiol<br>• ystyriaethau moesegol ac amgylcheddol o reoli'r gadwyn gyflenwi |

Uned 3: Dileu modelau strategol haniaethol a chryfhau dadansoddiad busnes cymhwysol, cyfoes.

| Adrannau wedi'u Dileu |
|---|
| • mae camarwain a ffactorau eraill, megis newidiadau mewn galw a chwyddiant, yn gallu effeithio ar gyfrifon<br>• rôl datganiadau gweledigaeth a'u perthynas â nodau busnes<br>• beth yw ystyr amcanion CAMPUS<br>• datganiadau gweledigaeth, amcanion a datganiadau cenhadaeth a'u heffaith ar fusnes a'i randdeiliaid<br>• strategaeth adrannol<br>• defnyddioldeb matrics Ansoff i fusnesau<br>• y ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau am leoli/adleoli a rhesymoli<br>• pwysigrwydd gwneud penderfyniadau i fusnes<br>• natur a phwrpas dadansoddiad cost a budd, gan wneud sylw am fuddion a chyfyngiadau'r dechneg<br>• cynnal dadansoddiad cost a budd, dehongli a gwerthuso'r canlyniadau<br>• **Archebion arbennig** |
| **Adrannau wedi'u Hychwanegu/Diweddaru** |
| • y rhesymau pam fod busnesau yn tyfu neu'n lleihau<br>• problemau llif arian, gorfenthyca a gorfasnachu<br>• AI a meddalwedd rheoli busnes |

Uned 4: Moderneiddio cynnwys i adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol rheoli newid, deall yr amgylchedd economaidd byd-eang, ac ymateb i heriau cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol.

| **Adrannau wedi'u Dileu** |
|---|
| • achosion newid mewn busnes gan gynnwys newid ym maint y busnes, newid yn ei berchenogaeth, datblygiadau o ran technoleg, newidiadau i'r farchnad, chwaeth defnyddwyr, deddfwriaeth, newidiadau yn y gweithlu a newidiadau yn yr economi<br>• Pedwar dull gwahanol J Storey<br>• Proses tri cham Lewin, newidiadau mewn diwylliant sefydliadol a rôl arweinyddiaeth<br>• sut gellir gwerthuso rheolaeth newid<br>• mae'n fwy sicr y bydd rhai risgiau'n digwydd nag eraill ac y bydd hyn yn effeithio ar faint o arian mae busnes yn barod i'w wario ar eu hatal<br>• sut mae modd gweithredu i atal rhai risgiau gan ddefnyddio dulliau atal fel gosod ysgeintellau dŵr, gwneud copïau wrth gefn o ddata TG a hyfforddi gweithwyr<br>• y gwahaniaeth rhwng risgiau y mae modd yswirio yn eu herbyn a risgiau nad oes modd yswirio yn eu herbyn<br>• ymatebion posibl busnes i'r risgiau posibl mae'n eu hwynebu<br>• rôl y llywodraeth yn darparu fframwaith sefydlog i fusnesau weithredu ynddo |
| • pwysigrwydd y llywodraeth fel prynwr nwyddau a gwasanaethau gan y sector preifat<br>• y gylchred busnes a'u mesur (CMC)<br>• mesur chwyddiant<br>• effaith y gylchred fusnes<br>• cyfraith cwmnïau<br>• eiddo deallusol<br>• marchnadoedd sy'n datblygu<br>• sut mae busnesau'n addasu eu cynhyrchion, gweithgareddau marchnata ac arferion gweithio i adlewyrchu anghenion lleol (*glocalisation*)<br>• y rhesymau dros fodolaeth cwmnïau amlwladol<br>• penderfyniad busnes i weithredu fel cwmni amlwladol<br>• natur a phwrpas yr Undeb Ewropeaidd (UE) a'r farchnad Ewropeaidd sengl<br>• effaith yr UE ar fusnesau a'u rhanddeiliaid<br>• beth yw ystyr yr arian cyfred sengl Ewropeaidd (yr ewro) a pharth yr Ewro<br>• costau a buddion yr arian cyfred sengl Ewropeaidd i fusnesau a'u rhanddeiliaid<br>• yr effaith mae bod yn aelod o'r UE a pharth yr Ewro yn ei chael ar fusnesau yn y DU |

| Adrannau wedi'u Hychwanegu/Diweddaru | |
|---|---|
| • strategaethau ar gyfer rheoli newid gan gynnwys arweinyddiaeth, cyfathrebu, tryloywder, ymgysylltu â gweithwyr, hyfforddiant a chefnogaeth, diwylliant cadarnhaol a monitro<br>• Chwe ffordd Kotter a Schlesinger o oresgyn gwrthwynebiad i newid<br>• prif feysydd gwariant y llywodraeth<br>• enciliad<br>• sut mae'r amgylchedd economaidd yn ddeinamig yn y DU ac yn fyd-eang<br>• dehongli data economaidd<br>• natur gystadleuol a dynamig cymdeithas<br>• amrywiaeth, dylanwad y cyfryngau a lleihau anghydraddoldebau<br>• sut mae busnesau a chymdeithas yn dylanwadu ar ei gilydd<br>• beth yw ystyr y chwyldro digidol, awtomeiddio, roboteg, Fintech, e-fasnach, m-fasnach, cyfryngau cymdeithasol, systemau rheoli stoc a storio cwmwl | • amrywiaeth o ddatblygiadau technolegol diweddar y gellir eu defnyddio i gefnogi busnesau<br>• amrywiaeth, gwahaniaethu, tryloywder ac atebolrwydd a chyflog gweithredol<br>• sut mae cymdeithas, ffactorau moesegol, cyfreithiol a gwleidyddol yn dylanwadu ar ymddygiad busnes mewn perthynas â'r amgylchedd<br>• tri philer cynaliadwyedd<br>• beth yw ystyr y fframwaith amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu<br>• y defnydd o'r safonau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol gan fusnesau i reoli arferion cynaliadwyedd, cymdeithasol a moesegol<br>• manteision dull amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol i fusnes<br>• beth yw ystyr rhoi gwaith dramor a dad-dramori<br>• beth yw ystyr dad-globaleiddio<br>• Pa ffactorau sydd wedi arwain at fwy o ddad-globaleiddio |

## Manteision arfaethedig

Nod y fanyleb ddiwygiedig yw gwella perthnasedd, hydrinedd, dilysrwydd asesu, ac ymgysylltiad dysgwyr, tra'n cefnogi dilyniant i addysg uwch a chyflogaeth.

## Sut i ymateb

Gwahoddir rhanddeiliaid i wneud sylwadau ar y dull cyffredinol, y newidiadau arfaethedig ar lefel uned, ac unrhyw fanteision neu bryderon posibl. Bydd adborth yn llywio penderfyniadau terfynol cyn eu cymeradwyo.

Ar ôl darllen y cynnig hwn, ymatebwch i'r arolwg yma erbyn 27.05.26